# Llyfrgell Genedlaethol Cymru = The National Library of Wales

**Cymorth chwilio | Finding Aid -** Papurau Zonia M. Bowen (Merched y Wawr), (GB 0210 ZONBOW)

---

Cynhyrchir gan Access to Memory (AtoM) 2.3.0
Generated by Access to Memory (AtoM) 2.3.0

Argraffwyd: Mai 06, 2017
Printed: May 06, 2017

Wrth lunio'r disgrifiad hwn dilynwyd canllawiau ANW a seiliwyd ar ISAD(G) Ail Argraffiad; rheolau AACR2; ac LCSH
Wrth lunio'r disgrifiad hwn dilynwyd canllawiau LlGC a seiliwyd ar ISAD(G) Ail Argraffiad; rheolau AACR2; ac LCSH.

**https://archifau.llyfrgell.cymru/index.php/papurau-zonia-m-bowen-merched-y-wawr**

**archives.library .wales/index.php/papurau-zonia-m-bowen-merched-y-wawr**

Llyfrgell Genedlaethol Cymru = The National Library of Wales
Allt Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
United Kingdom
SY23 3BU

01970 632 800

01970 615 709

gofyn@llgc.org.uk

www.llgc.org.uk

## Tabl cynnwys | Table of contents

Gwybodaeth grynodeb | Summary information .......... 3
Hanes gweinyddol / Braslun bywgraffyddol | Administrative history | Biographical sketch .......... 3
Natur a chynnwys | Scope and content .......... 4
Nodiadau | Notes .......... 4
Pwyntiau mynediad | Access points .......... 5
Disgrifiad cyfres | Series descriptions .......... 5
1. vtls004696363, Llythyrau'n ymwneud â'r canghennau,, 1967-1975. .......... 5
2. vtls004696632, Gohebiaeth gyffredinol,, 1967-1977. .......... 6
3. vtls004697017, Papurau gweinyddol,, 1965-1975. .......... 7
4. vtls004697109, Papurau ariannol,, 1967-1975. .......... 8
5. vtls004697125, Cylchlythyrau,, 1968. .......... 8
6. vtls004697143, Torion o'r wasg,, 1967-2007. .......... 9
7. vtls004697162, Papurau amrywiol,, 1967-2007. .......... 9

## Gwybodaeth grynodeb | Summary information

| | |
|---|---|
| **Lleoliad \| Repository:** | Llyfrgell Genedlaethol Cymru = The National Library of Wales |
| **Teitl \| Title:** | Papurau Zonia M. Bowen (Merched y Wawr), |
| **ID:** | GB 0210 ZONBOW |
| **Virtua system control number [alternative]:** | vtls004685872 |
| **Dyddiad \| Date:** | 1965-2007 / (dyddiad creu \| date of creation) |
| **Disgrifiad ffisegol \| Physical description:** | 6 bocs (0.054 metrau ciwbig) |
| **Iaith \| Language:** | Welsh |
| **Iaith \| Language:** | English |
| **Iaith \| Language:** | French |
| **Dyddiadau creu, golygu a dileu \| Dates of creation, revision and deletion:** | |
| **Nodyn \| Note [generalNote]:** | Crëwyd y teitl ar sail cynnwys yr archif. |

## Hanes gweinyddol / Braslun bywgraffyddol | Administrative history | Biographical sketch

### Nodyn | Note

Ganwyd Zonia M. Bowen yn Norfolk a'i magu yn Swydd Efrog ac fe ddysgodd Cymraeg wedi iddi symud i Gymru i fyw. Bu'n ffigwr blaenllaw yn hanes sefydlu Merched y Wawr ac yn weithgar fel yr Ysgrifennydd Cenedlaethol cyntaf, 1967-1970, golygydd Y Wawr, 1968-1975, ac fel Llywydd Anrhydeddus hyd nes iddi ymddiswyddo yn 1975 yn dilyn dadl rhyngddi hi ac aelodau eraill yngl#n â lle crefydd yng nghyfarfodydd swyddogol y Mudiad.

Sefydlwyd Merched y Wawr yn Y Parc, ger Y Bala, ym mis Mai 1967 yn dilyn anghydfod yngl#n â'r iaith rhwng Sefydliad y Merched Y Parc a swyddogion sirol y Sefydliad yn Rhagfyr 1966. Er bod aelodau cangen Y Parc yn cynnal eu cyfarfodydd a'u gweithgareddau oll drwy'r Gymraeg, yr oedd disgwyl i holl ddogfennau'r Sefydliad fod yn y Saesneg. Codwyd y mater gan Zonia M. Bowen, Ysgrifennydd y Sefydliad ar y pryd, ond gwrthododd swyddogion sirol y Sefydliad wrando ar ei chwynion. Yn y diwedd, er nad oeddynt wedi bwriadu ar hyn yn wreiddiol, torrodd aelodau Y Parc i ffwrdd o Sefydliad y Merched gan benderfynu parhau i gwrdd bob mis yn annibynnol.

Wedi ychydig fisoedd, awgrymodd Zonia M. Bowen wrth aelodau Y Parc y dylid cychwyn mudiad newydd i ferched Cymru oedd yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg. Y bwriad oedd dechrau'r ymgyrch yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala ond, wedi i'r wasg adrodd y stori, fe sefydlwyd cangen gyntaf Merched y Wawr yn Y Parc ym mis Mai 1967. O fewn wythnos yr oedd cangen arall wedi'i sefydlu yn Y Ganllwyd, ger Dolgellau, a chynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus cyntaf ar faes yr Eisteddfod yn Y Bala ychydig yn ddiweddarach.

## Natur a chynnwys | Scope and content

Papurau Zonia M. Bowen yn ymwneud â sefydlu mudiad Merched y Wawr, 1965-2007, yn cynnwys llythyrau'n ymwneud â changhennau ledled Cymru, 1967-1975; gohebiaeth gyffredinol, 1967-1977; papurau gweinyddol, 1965-1975; papurau ariannol, 1967-1975; cylchlythyrau, 1968; torion o'r wasg, 1967-2007; a phapurau amrywiol, 1967-2007, gan gynnwys anerchiadau, papurau'n ymwneud ag ymddiswyddiad Zonia M. Bowen, a chrynodebau o hanes y Mudiad.

## Nodiadau | Notes

### Nodiadau teitl | Title notes

### Ffynhonnell | Immediate source of acquisition

Mrs Zonia M. Bowen; Caernarfon; Rhodd; Awst 2009; 004685872.

### Cyfyngiadau ar fynediad | Restrictions on access

Disgwylir i ddarllenwyr sydd am ddefnyddio papurau modern yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru gydymffurfio â'r amodau a nodir ar y ffurflen 'Papurau modern - gwarchod data' a gyflwynir iddynt gyda'u tocynnau darllen.

### Amodau rheoli defnydd | Conditions governing use

Amodau hawlfraint arferol.

### Disgrifiadau deunydd | Related material

Trosglwyddwyd copïau o'r cylchgrawn Y Wawr, rhifynnau 1-29 (Awst 1968-Hydref 1975), i gasgliad llyfrau LlGC; ffotograffau i gasgliad ffotograffau LlGC (VTLS 4685889); a bathodynnau i gasgliad deunydd gweledol LLGC (VTLS 4685898); cedwir cofnodion rhai o ganghennau Merched y Wawr yn yr archifdai sirol perthnasol.

### Ychwanegiadau | Accruals

Ni ddisgwylir ychwanegiadau.

### Nodiadau eraill | Other notes

- **Statws cyhoeddiad | Publication status**: Published

## Pwyntiau mynediad | Access points

- Merched y Wawr -- History.
- Merched y Wawr -- Records and correspondence.
- Merched y Wawr.
- Bowen, Zonia -- Archives. (pwnc) | (subject)
- Women -- Wales -- Societies and clubs. (pwnc) | (subject)

## Disgrifiad cyfres | Series descriptions

### Cyfres | Series 1. vtls004696363: Llythyrau'n ymwneud â'r canghennau,

Dyddiad | Date: 1967-1975. (dyddiad creu) | (date of creation)

Natur a chynnwys | Scope and content:

Llythyrau'n ymwneud â changhennau Merched y Wawr ledled Cymru, 1967-1975, gan gynnwys yn bennaf llythyrau at Zonia M. Bowen fel Ysgrifennydd Cenedlaethol, 1967-1970, Llywydd Anrhydeddus, 1972-1975, a golygydd y Wawr, 1968-1975, ynghylch sefydlu canghennau newydd a materion gweinyddol amrywiol; ynghyd â llythyrau gan y swyddogion cenedlaethol. Ceir llythyrau hefyd yn adrodd hanes y canghennau a'r gweithgareddau a drefnwyd ganddynt. Ceir rhestrau o gynnwys y ffeiliau, a grëwyd gan Zonia M. Bowen, o fewn y ffeiliau.

Disgrifiad ffisegol | Physical description: 11 ffolder.

Iaith y deunydd | Language of the material:

Nodyn | Note:

Preferred citation: 1.

Trefniant | Arrangement:

Trefnwyd yn gronolegol o fewn ac yn ôl bob ffeil. Cadwyd y drefn wreiddiol o fewn y ffeiliau.

**Ffeil / rhestr eitemau | File / item list**

| Cod cyfeirnod \| Ref code | Teitl \| Title | Dyddiadau \| Dates | Statws mynediad \| Access status | Cynhwysydd \| Container |
|---|---|---|---|---|
| 1/1. vtls004696366 | File - Llythyrau'n ymwneud â changhennau Morgannwg, | 1967-1973. | | |
| 1/2. vtls004696376 | File - Llythyrau'n ymwneud â changhennau Sir Fôn, | 1967-1974. | | |
| 1/3. vtls004696382 | File - Llythyrau'n ymwneud â changhennau Sir Ddinbych, | 1967-1974. | | |
| 1/4. vtls004696391 | File - Llythyrau'n ymwneud â changhennau Sir Feirionnydd, | 1967-1974. | | |
| 1/5. vtls004696436 | File - Llythyrau'n ymwneud â changhennau Sir Gaerfyrddin, | 1967-1974. | | |
| 1/6. vtls004696558 | File - Llythyrau'n ymwneud â changhennau Sir Gaernarfon, | 1967-1975. | | |
| 1/7. vtls004696571 | File - Llythyrau'n ymwneud â changhennau Sir Drefaldwyn a Birmingham, | 1967-1975. | | |
| 1/8. vtls004696576 | File - Llythyrau'n ymwneud â changhennau Sir Aberteifi, | 1967-[1975]. | | |
| 1/9. vtls004696586 | File - Llythyrau'n ymwneud â changhennau Sir Y Fflint, | 1968-1972. | | |
| 1/10. vtls004696590 | File - Llythyrau'n ymwneud â changhennau Sir Benfro, | 1968-1973. | | |
| 1/11. vtls004696610 | File - Llythyrau gan y swyddogion cenedlaethol, | 1968-1975. | | |

## Cyfres | Series 2. vtls004696632: Gohebiaeth gyffredinol,

Dyddiad | Date: 1967-1977. (dyddiad creu) | (date of creation)

Natur a chynnwys | Scope and content:

Gohebiaeth gyffredinol, 1967-1977, rhwng Zonia M. Bowen, fel Ysgrifennydd Cenedlaethol, 1967-1970, Llywydd Anrhydeddus, 1972-1975, a golygydd y Wawr, 1968-1975, a chorfforaethau, mudiadau ac unigolion amrywiol yn ymwneud â Merched y Wawr a'i sefydliad. Ceir rhestrau o gynnwys rhai o'r ffeiliau, a baratowyd gan Zonia M. Bowen, o fewn y ffeiliau perthnasol.

Disgrifiad ffisegol | Physical description: 16 ffolder.

Iaith y deunydd | Language of the material:

Nodyn | Note:

Preferred citation: 2.

Trefniant | Arrangement:

Trefnwyd yn gronolegol o fewn ac yn ôl pob ffeil. Cadwyd y drefn wreiddiol o fewn y ffeiliau.

**Ffeil / rhestr eitemau | File / item list**

| Cod cyfeirnod \| Ref code | Teitl \| Title | Dyddiadau \| Dates | Statws mynediad \| Access status | Cynhwysydd \| Container |
|---|---|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| 2/1. vtls004696718 | File - Gohebiaeth ag Undeb Cymru Fydd, | 1966-1969. |
| 2/2. vtls004696664 | File - Llythyrau o longyfarch, | 1967-1969. |
| 2/3. vtls004696669 | File - Llythyrau gan y BBC, | 1967-1969. |
| 2/4. vtls004696748 | File - Gohebiaeth â'r Urdd Ryngwladol i Ferched dros Heddwch a Rhyddid, | 1967-1971. |
| 2/5. vtls004696796 | File - Datganiadau a llythyrau i'r wasg, | 1967-[1973]. |
| 2/6. vtls004696808 | File - Llythyrau gan yr Awdurdod Teledu Annibynnol a Theledu Harlech, | 1967-1975. |
| 2/7. vtls004696823 | File - Llythyrau'n ymwneud â'r cylchgrawn Y Wawr, | 1967-1975. |
| 2/8. vtls004696832 | File - Llythyrau amrywiol gan wahanol gyrff ac unigolion, | 1967-1975. |
| 2/9. vtls004696883 | File - Llythyrau gan Undeb y Gymraeg Fyw, | 1968-1969. |
| 2/10. vtls004696887 | File - Llythyrau gan Plaid Cymru, | 1968-1971. |
| 2/11. vtls004696894 | File - Gohebiaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, | 1968-1975. |
| 2/12. vtls004696895 | File - Llythyrau'n ymwneud ag Eisteddfod Genedlaethol Y Fflint, | 1969. |
| 2/13. vtls004696902 | File - Llythyrau'n ymwneud â chân y Mudiad, | 1969-1974. |
| 2/14. vtls004696904 | File - Gohebiaeth â'r Adran Addysg a Gwyddoniaeth, | 1969-1976. |
| 2/15. vtls004696983 | File - Llythyrau'n ymwneud ag ysgolion meithrin, | 1969-1977. |
| 2/16. vtls004697003 | File - Llythyrau gan Gymdeithas y Cenhedloedd Unedig, | 1970. |

## Cyfres | Series 3. vtls004697017: Papurau gweinyddol,

Dyddiad | Date: 1965-1975. (dyddiad creu) | (date of creation)

Natur a chynnwys | Scope and content:

Papurau gweinyddol Merched y Wawr, 1965-1975, yn cynnwys papurau'n ymwneud â Sefydliad y Merched Y Parc a sefydlu Merched y Wawr, 1965-1967; cyfarwyddiadau ar sut i ddechrau cangen o'r Mudiad, 1967-1975; cofnodion y Cyngor Cenedlaethol, 1967-1975; cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 1969-1975; copi o'r Cyfansoddiad, 1969; papurau'n ymwneud ag ethol swyddogion cenedlaethol, 1971-1973; a rhestri o ganghennau, 1975.

Disgrifiad ffisegol | Physical description: 7 ffolder.

Iaith y deunydd | Language of the material:

Nodyn | Note:

Preferred citation: 3.

Trefniant | Arrangement:

Trefnwyd yn ôl y math o gofnodion, ac yna'n gronolegol o fewn ac yn ôl pob ffeil. Cadwyd y drefn wreiddiol o fewn y ffeiliau.

**Ffeil / rhestr eitemau | File / item list**

| Cod cyfeirnod \| Ref code | Teitl \| Title | Dyddiadau \| Dates | Statws mynediad \| Access status | Cynhwysydd \| Container |
|---|---|---|---|---|
| 3/1. vtls004697031 | File - Sefydliad y Merched Y Parc a sefydlu Merched y Wawr, | 1965-1967. | | |
| 3/2. vtls004697039 | File - Cyfarwyddiadau ar sut i gychwyn cangen, | 1967-1975. | | |
| 3/3. vtls004697064 | File - Cofnodion y Cyngor Cenedlaethol, | 1967-1975. | | |
| 3/4. vtls004697091 | File - Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, | 1969-1975. | | |
| 3/5. vtls004697094 | File - Y Cyfansoddiad, | 1969. | | |
| 3/6. vtls004697104 | File - Papurau'n ymwneud ag ethol swyddogion cenedlaethol, | 1971-1973. | | |
| 3/7. vtls004697107 | File - Rhestri o ganghennau, | 1975. | | |

## Cyfres | Series 4. vtls004697109: Papurau ariannol,

Dyddiad | Date: 1967-1975. (dyddiad creu) | (date of creation)

Natur a chynnwys | Scope and content:

Papurau ariannol, 1967-1975, yn cynnwys mantolenni ariannol cenedlaethol, 1967-1974; a phapurau'n ymwneud â theithiau tramor y Mudiad, 1972-1975.

Disgrifiad ffisegol | Physical description: 2 ffolder.

Iaith y deunydd | Language of the material:

Nodyn | Note:

Preferred citation: 4.

Trefniant | Arrangement:

Trefnwyd yn gronolegol o fewn ac yn ôl pob ffeil. Cadwyd y drefn wreiddiol o fewn y ffeiliau.

**Ffeil / rhestr eitemau | File / item list**

| Cod cyfeirnod \| Ref code | Teitl \| Title | Dyddiadau \| Dates | Statws mynediad \| Access status | Cynhwysydd \| Container |
|---|---|---|---|---|
| 4/1. vtls004697111 | File - Mantolenni ariannol cenedlaethol, | 1967-1974. | | |
| 4/2. vtls004697117 | File - Teithiau tramor, | 1972-1975. | | |

## Cyfres | Series 5. vtls004697125: Cylchlythyrau,

Dyddiad | Date: 1968. (dyddiad creu) | (date of creation)

Natur a chynnwys | Scope and content:

Cylchlythyrau G#yl Dewi a Calan Mai Merched y Wawr, 1968, gan gynnwys negeseuon gan y Llywydd ac adroddiadau yn sôn yn fras am ddigwyddiadau'r Mudiad ledled Cymru.

Disgrifiad ffisegol | Physical description: 2 amlen.

Iaith y deunydd | Language of the material:

Nodyn | Note:

Preferred citation: 5.

Trefniant | Arrangement:

Trefnwyd yn gronolegol.

**Ffeil / rhestr eitemau | File / item list**

| Cod cyfeirnod \| Ref code | Teitl \| Title | Dyddiadau \| Dates | Statws mynediad \| Access status | Cynhwysydd \| Container |
|---|---|---|---|---|
| 5/1. vtls004697131 | File - Cylchlythyr G#yl Dewi, | 1968. | | |
| 5/2. vtls004697135 | File - Cylchlythyr Calan Mai, | 1968. | | |

## Cyfres | Series 6. vtls004697143: Torion o'r wasg,

Dyddiad | Date: 1967-2007. (dyddiad creu) | (date of creation)

Natur a chynnwys | Scope and content:

Llyfrau lloffion, wedi eu creu gan Zonia M. Bowen, yn cynnwys torion o'r wasg, 1967-2007, yn ymwneud â hanes Merched y Wawr o'r flwyddyn ei sefydlwyd yn 1967 hyd at ymddiswyddiad Zonia M. Bowen o'r Mudiad yn 1975. Hefyd, ceir rhai erthyglau yn sôn am ddathliadau penblwydd cangen y Parc yn 2007.

Disgrifiad ffisegol | Physical description: 2 gyfrol.

Iaith y deunydd | Language of the material:

Nodyn | Note:

Preferred citation: 6.

Trefniant | Arrangement:

Trefnwyd yn gronolegol. Cadwyd y drefn wreiddiol o fewn pob ffeil.

**Ffeil / rhestr eitemau | File / item list**

| Cod cyfeirnod \| Ref code | Teitl \| Title | Dyddiadau \| Dates | Statws mynediad \| Access status | Cynhwysydd \| Container |
|---|---|---|---|---|
| 6/1. vtls004697146 | File - Torion o'r wasg, | 1967-1974. | | |
| 6/2. vtls004697150 | File - Torion o'r wasg, | 1975-2007. | | |

## Cyfres | Series 7. vtls004697162: Papurau amrywiol,

Dyddiad | Date: 1967-2007. (dyddiad creu) | (date of creation)

Natur a chynnwys | Scope and content:

Papurau amrywiol, 1967-2007, yn cynnwys anerchiadau Zonia M. Bowen, 1967-1974; papurau'n ymwneud ag ymddiswyddiad Zonia M. Bowen o'r Mudiad, 1965-2007; a chrynodebau o hanes sefydlu'r Mudiad, 1975-2004.

Disgrifiad ffisegol | Physical description: 3 ffolder.

Iaith y deunydd | Language of the material:

Nodyn | Note:

Preferred citation: 7.

Trefniant | Arrangement:

Trefnwyd yn gronolegol. Cadwyd y drefn wreiddiol o fewn pob ffeil.

**Ffeil / rhestr eitemau | File / item list**

| Cod cyfeirnod \| Ref code | Teitl \| Title | Dyddiadau \| Dates | Statws mynediad \| Access status | Cynhwysydd \| Container |
|---|---|---|---|---|
| 7/1. vtls004697168 | File - Anerchiadau Zonia M. Bowen, | 1967-1974. | | |
| 7/2. vtls004697179 | File - Ymddiswyddiad Zonia M. Bowen, | 1965-2007. | | |
| 7/3. vtls004697181 | File - Crynodebau o hanes sefydlu'r Mudiad, | 1975-2004. | | |